OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1493 (Cy. 272)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Blaendal Cadw) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Rhagfyr 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Rhagfyr 2019* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)* | |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan baragraff 11(3) a (4) o Atodlen 2 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Blaendal Cadw) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 10 Rhagfyr 2019 at ddiben rheoliad 2 ac ar 28 Chwefror 2020 at bob diben arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 10.12.2019 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)**

**I2** Rhl. 1 mewn grym ar 28.2.2020 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)**

### Dirymu

**2.** Mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019(**2**) wedi eu dirymu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 2 mewn grym ar 10.12.2019, gweler **rhl. 1(2)**

(**1**) 2019 dccc 2 ("Deddf 2019"); *gweler* adran 28 am y diffiniad o "rheoliadau". Cyflwynir Atodlen 2 gan adran 9 o Ddeddf 2019.
(**2**) O.S. 2019/1466 (Cy. 258).

## Gwybodaeth benodedig

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu gwybodaeth y mae rhaid i landlord (neu, os cyfarwyddir felly, ei asiant gosod eiddo) ei darparu i ddarpar ddeiliad contract(**3**) cyn y telir blaendal cadw(**4**) i landlord neu asiant gosod eiddo mewn cysylltiad â chontract meddiannaeth safonol a'r ffordd y mae rhaid darparu'r wybodaeth honno.

(2) Rhaid darparu'r wybodaeth a ganlyn i ddarpar ddeiliad contract—

(a) swm y blaendal cadw(**5**),

(b) cyfeiriad yr annedd y telir y blaendal mewn cysylltiad â hi,

(c) pan fo blaendal cadw i'w dalu i asiant gosod eiddo, enw a manylion cyswllt yr asiant gosod eiddo hwnnw,

(d) pan fo blaendal cadw i'w dalu i landlord, enw a manylion cyswllt y landlord hwnnw,

(e) hyd y contract,

(f) dyddiad meddiannaeth arfaethedig,

(g) swm y rhent neu gydnabyddiaeth arall,

(h) cyfnod rhentu,

(i) unrhyw delerau contract ychwanegol arfaethedig neu addasiadau arfaethedig i delerau sylfaenol neu atodol neu delerau y bwriedir eu hepgor o'r contract,

(j) swm unrhyw flaendal sicrwydd,

(k) a oes angen gwarantwr ac, os felly, unrhyw amodau perthnasol,

(l) gwiriadau geirda y bydd y landlord (neu'r asiant gosod eiddo) yn eu cynnal, ac

(m) gwybodaeth y mae ar y landlord neu'r asiant gosod eiddo ei hangen gan y darpar ddeiliad contract.

(3) Rhaid darparu'r wybodaeth i ddarpar ddeiliad contract yn ysgrifenedig a chaniateir ei rhoi yn bersonol neu ei darparu drwy ddulliau electronig os yw'r darpar ddeiliad contract yn cydsynio i'w chael yn electronig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 3 mewn grym ar 28.2.2020, gweler **rhl. 1(2)**

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

(**3**) Yn rhinwedd rheoliad 3 o O.S. 2019/1151 (Cy. 201), mae cyfeiriadau yn Neddf 2019 at ddeiliad contract i'w darllen fel cyfeiriadau at denant o dan denantiaeth fyrddaliadol sicr o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50).
(**4**) *Gweler* paragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf 2019 am y diffiniad o "blaendal cadw".
(**5**) O dan baragraff 4(c) o Atodlen 1 i Ddeddf 2019, ni chaiff blaendal cadw fod yn fwy na swm sy'n gyfwerth ag un wythnos o rent o dan y contract.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi gwybodaeth y mae rhaid i naill ai'r landlord neu ei asiant gosod eiddo ei darparu i ddarpar ddeiliad contract, cyn y telir blaendal cadw mewn cysylltiad â chontract meddiannaeth safonol. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn pennu'r ffordd y mae rhaid darparu'r wybodaeth.

Mae rheoliad 2 yn dirymu Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019.

Os na ddarperir yr wybodaeth yn rheoliad 3(2) i ddarpar ddeiliad contract cyn y telir blaendal cadw, ni chaiff y landlord na'r asiant gosod eiddo ddibynnu ar yr eithriadau a nodir ym mharagraffau 8, 9 a 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 a rhaid ad-dalu'r blaendal cadw. Mae rheoliad 3(3) yn nodi'r ffordd y mae rhaid darparu'r wybodaeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 28/02/2020.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Blaendal Cadw) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019.